**Helo a chroeso cynnes i’n fersiwn electronig yn unig cyntaf o Newyddion DBS.**

Mae’n dda gennyf gael rhannu’r newyddion gyda chi fod ein Cynllun Corfforaethol cyntaf wedi ei gymeradwyo gan ein Gweinidog a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn fuan. Mae’r Cynllun yn cynnwys beth allwch chi ei ddisgwyl gennym yn ystod y misoedd i ddod a’n Datganiad Cenhadaeth newydd:

Ein nod yw bod yn ddarparwr effeithlon ac y gellir ymddiried ynddo o wasanaethau gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau cyflogaeth diogel.

Rwy’n arbennig o falch ein bod, trwy eich darparu â gwasanaethau o ansawdd uchel, yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl fregus. Mae hyn yn rhywbeth y mae’n rhaid i ni barhau i’w gael yn iawn a’n nod yw cyflawni hyn trwy gynnal parhad busnes a bodloni ein safonau gwasanaeth cyhoeddedig.

Mae dod â newyddion i’r funud i chi a moderneiddio’r ffordd yr ydym yn cyfathrebu yn un rhan yn unig o’n hymroddiad i chi eleni. 2013-14 fydd ein blwyddyn lawn gyntaf – ac am flwyddyn!

Bydd yn gyfnod heriol wrth i ni lansio'r Gwasanaeth Diweddaru a thystysgrif sengl (ymgeisydd yn unig) a dod â system newydd i mewn i ganiatáu ar gyfer hidlo rhai rhybuddiadau, euogfarnau, ceryddon a rhybuddion o dystysgrifau datgeliad. Ond nid ydym yn caniatáu llaesu dwylo ar ein rhan. Mae ein perfformiad a gosod targedau uchelgeisiol (y gallwch ddarllen amdanynt yn hwyrach yn y rhifyn hwn) oll yn cadarnhau na fydd ein ffocws yn dargyfeirio o gyflawni’r gwasanaeth yr ydych eu hangen, yn yr amser y byddwch eu hangen.

Byddai dim ond un o’r rhain yn newid mawr i sefydliad ei gyflwyno, felly fe wyddom y bydd yn dasg enfawr i sicrhau fod popeth yn dal i weithio’n ddidrafferth. Ond gyda’n Cennad wedi ei stampio trwy’n moeseg gwaith ac yn flaenllaw yn ein meddyliau, rydym yn ymroddedig i gyflawni’r rhain i gyd mewn modd amserol ac o ansawdd uchel.

Mae’n mynd i fod yn gyfnod cyffrous, ac rwy’n edrych ymlaen at gydweithio i gyfoethogi’r dirwedd ddiogelu.

Adriènne Kelbie

Prif Weithredwr

Cofiwch – RHAID i chi ddefnyddio ffurflen cais brand y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd unrhyw ffurflen Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn cael eu dychwelyd am na allwn eu prosesu. Dylech gael gwared ar unrhyw hen stoc i osgoi dryswch.

---

**Nodyn ar y Gwasanaeth Diweddaru**

Ni allwn gyhoeddi’r dyddiad i lansio’n Gwasanaeth Diweddaru eto, ac fe ymddiheurwn am y rhwystredigaeth a achoswyd gan hyn.  Ond ar nodyn positif, rydym yn disgwyl cael penderfyniad gan y Swyddfa Gartref yn fuan iawn.

Cyn belled ag y byddwn wedi cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen, byddwn yn cysylltu â chi i ddarparu popeth fyddwch ei angen i gynorthwyo ymgeiswyr. Sicrhewch eich bod ar ein cronfa ddata electronig, gan ein bod yn disgwyl i bethau symud yn gyflym yn fuan iawn. Cofrestrwch ar www.gov.uk/dbs i dderbyn cyhoeddiadau electronig.

---

**Cyfeiriadur Cyrff Cysgodol**

Mae ein cyfeiriadur Cyrff Cysgodol newydd wedi ei lansio'n llwyddiannus ar y wefan GOV.UK. Gallwch weld y cyfeiriadur yma, neu trwy chwilio am 'dod o hyd i gwmni corff cysgodol DBS' ar www.gov.uk.

Er gwaethaf anfon nodiadau atgoffa, dim ond 164 o Gyrff Cysgodol sydd wedi diweddaru eu gwybodaeth o gyfanswm o 1246 a gedwir ar y cyfeiriadur.

Mae cael gwybodaeth gywir, gyfredol yn allweddol i gwsmeriaid. Gwyddom fod nifer o Gyrff Cysgodol wedi sicrhau mantais gystadleuol wirioneddol o ddiweddaru ac adnewyddu eu gwybodaeth.

Yn wir, rydym wedi bod yn derbyn adborth positif iawn gan rai ohonoch, yn cynnwys Cyngor Sir Dyfnaint a ddywedodd wrthym: 'Wedi'n plesio'n fawr iawn gyda'r Gronfa Ddata Cyrff Cysgodol newydd. Ers i ni ddiweddaru ein manylion, rydym wedi derbyn ymholiadau o bob rhan o'r wlad. Arbennig o dda.'

Os yw'ch manylion cyswllt wedi dyddio, efallai y bydd cwsmeriaid yn chwilio rhywle arall ac ni fyddwch byth yn gwybod pwy sydd wedi cael y busnes a fyddai wedi dod i chi. Felly cymrwch ychydig funudau i fynd ar-lein a sicrhau fod eich gwybodaeth yn gywir. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech wirio a diweddaru eich manylion erbyn 30 Mehefin 2013.

Gellir hefyd rhestru gwasanaethau arbenigol eraill a gynigir gennych, gan gynnwys gwasanaethau yn Gymraeg a chyngor, arweiniad a hyfforddiant. Rhowch y manylion hyn ar y ffurflen hefyd.

Os nad yw'ch manylion wedi eu trosglwyddo i'r cyfeiriadur newydd, rhowch wybod i ni yn: customerservices@dbs.gsi.gov.uk

---

**Defnyddio'r peiriant chwilio GOV.UK**

Nawr ein bod wedi llwyddo i symud ein gwybodaeth i gyd draw i'r wefan GOV.UK, rydym eisiau dangos y ffordd orau a hawsaf o ddod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano.

Mae gan GOV.UK gyfleuster chwilio grymus sydd ar gornel dde uchaf y safle.

Os ydych yn chwilio am wybodaeth benodol DBS, bydd y cyfleuster chwilio yn gweithio orau os byddwch yn rhoi 'DBS' yn gyntaf, ac yna'r term yr ydych yn chwilio amdano. Er enghraifft: 'DBS cwynion' neu 'DBS cymhwyster'.

Mae canlyniadau chwilio yn arddangos o fewn tri thab gwahanol fel y gwelir isod (Canlyniadau cyffredinol, Arweiniad manwl a Thu fewn i'r Llywodraeth).

Gwiriwch y tri thab ar gyfer yr wybodaeth yr ydych yn chwilio amdano. Cedwir y rhan fwyaf o'n gwybodaeth ar Du fewn i'r Llywodraeth, ond efallai y bydd y tabiau eraill yn cynnwys rhywbeth mwy perthnasol i'ch chwiliad.

Gallech hefyd ystyried ychwanegu rhai o'n dolenni cyffredin i'ch rhestr ffefrynnau. Os ydych yn chwilio am eich ffurflen gyfeirio a chanllaw:

https://www.gov.uk/government/publications/dbs-referrals-form-and-guidance

neu i gael canllaw i gydlofnodwyr:

https://www.gov.uk/government/publications/guidelines-for-the-countersignatory-application-form

Fel arfer, os oes gennych unrhyw ymholiadau neu adborth am GOV.UK, cysylltwch â ni. Hefyd, gan ei fod yn safle newydd, rydym eisiau sicrhau os oes gennych unrhyw adborth – da neu ddrwg – y gallwn ei basio ymlaen at dîm gwefan y llywodraeth. Cysylltwch â ni yn customer.services@dbs.gsi.gov.uk

---

**Ein targedau**

Ym mis Ebrill, fe gyhoeddom ein safonau a thargedau blynyddol. Rydym eisiau targedau a fydd yn ddefnyddiol i chi gan ein dal yn atebol. Mae'r safonau hyn yn galw arnom i gynnal perfformiad yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Ond gwyddom fod ein perfformiad mor bwysig i chi ag y mae i ni. Mae gennych ein gair y byddwn yn dal i gyflawn gwasanaeth o lefel uchel ac, fel y gwelwch, yn gofyn am berfformiad mwy fyth gan ein gwasanaethau.

Daeth y flwyddyn ariannol ddiwethaf i ben ar nodyn uchel i ni; gyda'n perfformiad gwahardd gorau erioed yn erbyn targedau ac yn rhagori ar ein targedau ar brosesu gwiriadau cofnodion troseddol hefyd. Rydym wedi lleihau ein llwyth gwaith ar fynd i'r lefel isaf erioed ac mae cwynion wedi gostwng hefyd.

Felly, i sicrhau ein bod yn dal i gynnal y safonau hyn ac yn gwella'n barhaus, rydym wedi gosod her fwy fyth i ni'n hunain. Mae ein safonau perfformiad wedi cynyddu ac fe ychwanegwyd golau newydd.

Rydym wedi rhestru'n safonau newydd isod.

Datgeliad (gwiriadau cofnod troseddol)

Yn hanesyddol roeddem yn adrodd ar gyflawniad perfformiad gwiriadau Safonol a Manwl ar wahân, ond ym mis Ebrill fe lansiwyd targed newydd, mwy heriol y teimlwn fydd yn gwella ac adlewyrchu profiad ein cwsmeriaid. Ein nod yw cyhoeddi 75% o'r holl Ddatgeliadau o fewn 14 niwrnod, a bydd y targed newydd hwn wedi ei gefnogi gan ddau fesur pellach fe y rhestrir isod.

- 75% o’r holl Ddatgeliadau wedi eu cyhoeddi o fewn 14 niwrnod calendr i dderbyn

– gosod targed newydd

- 90% o’r holl Ddatgeliadau wedi eu cyhoeddi o fewn 28 niwrnod calendr i dderbyn

– gosod targed newydd

- 99% o’r holl Ddatgeliadau wedi eu cyhoeddi o fewn 60 niwrnod calendr i dderbyn

– gosod targed newydd

- graddiad cywirdeb o 99.98% ar gyfer tystysgrifau Datgeliad

**Gwahardd**

Yn ein gwaith Gwahardd, rydym yn dal i anelu at berfformiad lefel uchel ac wedi gosod dau dargedu newydd o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol diweddar.

- graddiad cywirdeb o 99.96% wrth brosesu achosion gwahardd
- 80% o achosion dewisol wedi eu cau o fewn 110 niwrnod gwaith
- 60% o achosion dewisol wedi eu cau o fewn 55 niwrnod gwaith
- 80% o achosion gwahardd awtomatig heb gynrychiolaeth, wedi eu gwahardd a chwblhau o fewn 55 niwrnod gwaith – gosod targed newydd
- 60% o achosion gwahardd awtomatig gyda chynrychiolaeth, wedi eu cwblhau o fewn 120 niwrnod gwaith – gosod targed newydd

**Safbwynt y cwsmer**

Does neb yn hoffi derbyn cwynion. Ond credwn mai’r ffordd orau i ddelio ag unrhyw broblemau gyda’n gwasanaethau yw trwy ymateb iddynt – a chi – yn gyflym ac effeithiol.

Ein nod yw ymateb i 95% o gwynion Cam 1 o fewn 10 niwrnod gwaith. (Mae’r rhain yn gwynion y bydd y rheolwr gwasanaeth wedi ymateb iddynt). Mae’r targed hwn wedi ei addasu trwy alinio amserlenni ymateb cwynion y cyn Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ac ISA.

Mae ein targed newydd olaf yn ceisio ymateb i 95% o ymholiadau gohebiaeth cwsmeriaid o fewn 10 niwrnod gwaith.

Rhowch wybod i ni beth ydych chi’n feddwl o’r safonau hyn trwy anfon e-bost atom yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk

---

**Cyrsiau hyfforddi cydlofnodwyr – Archebwch ei lle AM DDIM nawr!**

Os ydych yn gydlofnodydd newydd neu bresennol a hoffai wella eich gwybodaeth a chael cymorth ymarferol, efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn cwrs hyfforddiant yn arbennig i chi! Bydd yn eich helpu gyda:

- cwblhau ffurflenni;
- gwirio hunaniaeth;
- deall Gweithgareddau Rheoledig;
- y Cod Ymarfer; a
- newidiadau yn y dyfodol.

Mae mynychwyr blaenorol wedi elwa o leihad sylweddol yn y nifer o ffurflenni a ddychwelir wedi eu marcio fel gwallau. Mae hyn yn arbed amser, arian ac anghyfleustra i bawb.

Mae gennym nifer o lefydd ar gael o hyd, felly cliciwch yma a chymryd golwg at y dyddiadau hyfforddiant Cydlofnodydd am fanylion pellach, yn cynnwys amserlen lawn o ddyddiadau, lleoliadau a sut i archebu.

Fe'ch cynghorir i archebu eich lle yn gynnar gan mai llefydd cyfyngedig sydd ym mhob lleoliad ac fe'i dosbarthir ar sail y cyntaf i'r felin.

Bydd y cyrsiau hyn yn cael eu cynnal tan fid Gorffennaf, ond o fid Awst byddwn yn cymryd egwyl i adolygu'n prosesau a gweithdrefnau o ran sut i ddarparu gwybodaeth i chi – ac mae hyn yn cynnwys adolygu'ch adborth i gyd. Hoffem sicrhau fod popeth fel y dylai fod, felly cadwch lygad am sut fyddwch yn darparu hyn i chi yn y dyfodol.

---

**Canllaw Newydd**

Canllaw Newydd ar gyfer Diogelu Plant

Mae diogelu yn fusnes i bawb ac mae gwybodaeth diogelu yn arf bwysig i chi ei defnyddio. Mae'r Adran Addysg wedi adolygu'r canllaw 'Cydweithio i Ddiogelu Plant'.

Mae'n cymryd lle tair dogfen:

- Y Fframwaith i Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (2000)
- Canllaw statudol ar wneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant dan adran 11 y Ddeddf Plant (2007), a
- Cydweithio i Ddiogelu Plant (2010).

Mae'r canllaw'n bwysig i bawb sy'n gweithio gyda phlant ac mae'n allweddol eich bod yn darllen a dilyn y canllaw gan y bydd yn eich helpu i ymateb i anghenion unigol plant dan eich gofal, yn y modd mwyaf priodol.

Yn bwysig iawn, mae'r wybodaeth yn ychwanegu eglurder i beth ddylai unigolion a sefydliadau wneud i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo eu lles. Bwriedir darparu fframwaith cenedlaethol fydd yn galluogi asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, ar lefel leol - yn unigol ac ar y cyd - i lunio a chytuno ar eu dulliau eu hunain o gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Gellir cael mynediad at y canllaw cyflawn trwy glicio ar y ddolen yma a lawrlwytho'r drydedd ddolen ar ochr dde'r dudalen.

Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg

Mae ymgynghoriad ffurfiol ar ganllaw i gymryd lle'r ddogfen 'Diogelu Plant a Recriwtio Diogel mewn Addysg 2007' wedi ei lansio. Mae'r canllaw drafft newydd wedi ei enwi yn 'Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg'.

Mae hyn yn wybodaeth diogelu bwysig; yn arbennig i'r rhai ohonoch sy'n gweithio yn y sector addysg, a gellir ei weld trwy glicio ar y ddolen yma a lawrlwytho'r ail ddolen ar ochr dde'r dudalen. Mae'r ddolen hefyd yn rhoi gwybod i chi sut allwch chi ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad.

---

**Gwiriadau ar gyfer ymgeiswyr tramor**

Pan fydd ymgeisydd o wlad dramor, gall cyflogwyr ofyn iddynt gael gwiriad cofnodion troseddol, neu 'Dystysgrif o Ymddygiad Da', gan eu gwlad wreiddiol. Mewn rhai achosion, gallai hefyd fod yn bosibl i gyflogwyr gael y gwiriad hwn trwy'r llysgenhadaeth berthnasol yn y Deyrnas Unedig - ond mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydsynio i hyn.

Mae nifer o wledydd wedi darparu manylion sut i wneud cais am dystysgrifau Ymddygiad Da ac/neu dystysgrifau cofnodion troseddol a gellir dod o hyd i'r rhain yma:

https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/arranging-checks-as-an-employer (sylwer: bydd yr wybodaeth yn y ddolen hon ar gael o ddiwedd Mai)

Dylai cyflogwyr ddal i wirio gyda'r llysgenhadaeth berthnasol gan fod prosesau i gaffael y gwiriadau a thystysgrifau hyn yn amrywio o wlad i wlad. Ceir rhestr o fanylion cyswllt ar gyfer llysgenadaethau wedi eu lleoli yn Llundain ar: https://www.gov.uk/government/publications/foreign-embassies-in-the-uk

---

**Cyfeiriadau tramor**

Yn rhifyn Ebrill fe roddom wybod i chi am ein cynlluniau i gyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig; ble nad ydym bellach yn cyhoeddi Tystysgrifau i'r Corff Cofrestredig, dim ond i'r ymgeisydd.

Pan gyflwynir hyn – ar yr un pryd â'r Gwasanaeth Diweddaru – byddwn yn newid y modd yr ydym yn delio â thystysgrifau sydd â chyfeiriad tramor fel prif gyfeiriad.

Ar hyn o bryd, os oes gan ymgeisydd gyfeiriad tramor ar hyn o bryd, ac os nad yw'n ei gyrraedd, fe ddychwelir y Dystysgrif i ni ac yna ei hanfon ymlaen at y Cydlofnodydd perthnasol.

Wrth gyflwyno tystysgrifau ymgeisydd yn unig, ni fyddwn yn gallu anfon Tystysgrifau a dychwelyd atom i'r Corff cofrestredig. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio cyfeiriad 'dan ofal' yn y Deyrnas Unedig yn y maes 'cyfeiriad presennol' yn yr achosion hyn. O wneud hyn gallwn sicrhau fod yr ymgeisydd yn gwybod am, ac yn cytuno i, y cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig.

Os yw'r ymgeisydd yn cytuno, dylai'r cyfeiriad dan ofal fod yn un y Corff cofrestredig neu'r cyflogwr.

Dylid cwblhau'r ffurflen gais fel a ganlyn:

- Adran b llinell 32: Dylid rhoi 'd/o' neu 'dan ofal' o flaen llinell gyntaf y cyfeiriad
- Adran b llinell 37: dylai 'yn y cyfeiriad ers' fod y dyddiad pan gwblheir y ffurflen hon
- Adran c: Dylai Cyfeiriadau Eraill fod y cyfeiriad tramor presennol
- Adran c, llinell 43: dylai'r dyddiad 'i' fod yr un peth â llinell 37

Os ydych yn gweithredu fel Corff Cysgodol, cofiwch hysbysu eich sefydliadau cleient o'r broses newydd hon.